

## Arholiadau Aelodaeth Gyflawn 1 Hydref 2022

### Adroddiad Cyffredinol

#### Y diffiniad o Aelodaeth Gyflawn:

*Mae safon Aelodaeth Gyflawn yn cyfateb i aelodaeth gwbl broffesiynol lle nad oes ar y cyfieithydd angen unrhyw oruchwyliaeth. Disgwylir iddo fedru cyfieithu'n rhugl ac yn gywir, ysgrifennu mewn sawl arddull a chywair yn ôl yr angen a gallu ymdopi ag iaith haniaethol neu dechnegol. Disgwylir iddo hefyd feddu ar ddealltwriaeth glir o gefndir diwylliannol y ddwy iaith. Ar ôl iddo gwblhau ac adolygu cyfieithiadau, ni ddylai fod angen eu diwygio na'u cywiro.*

**Adran 1 – Cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg**

**Tud. 2**

**Adran 2 – Cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg**

**Tud. 8**

## Adran 1 – Cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg

Nifer yr ymgeiswyr: 7

Llwyddo: 3

Braf yw gallu dweud bod tri ymgeisydd wedi cyrraedd y safon yn y rownd hon a bod y cyfieithiadau a gynhyrchwyd yn argyhoeddi at ei gilydd, er nad oedd yr un yn ddi-fai. Roedd y darnau a ddewiswyd yn fwriadol heriol, fel y gellid disgwyl ar y lefel hon. Roedd y darn cyntaf yn enwedig yn dechnegol ar yr olwg gyntaf, ond dylai cyfieithydd profiadol allu ymdopi ag ef. Mae'r tri darn a osodir i asesu ymgeiswyr ar y lefel Cyflawn yn wahanol i'w gilydd o ran arddull a phwnc, ac o bosibl yn dra gwahanol i'r hyn y bydd ymgeiswyr yn gyfarwydd â'i gyfieithu wrth eu gwaith pob dydd. Serch hynny, mae'r hanfodion yr un fath, a disgwylir i'w sgiliau ieithyddol uwch eu galluogi i lunio brawddegau ystyrion sy'n gystrawennol briodol ni waeth beth fo'r testun dan sylw.

Yn ôl yr arfer, gosodwyd darn 'gwaith cartref' yn y rownd hon, i'w gyfieithu cyn yr arholiad. Diben y darn hwn yw rhoi cyfle i'r ymgeiswyr lunio cyfieithiad gartref gyda'r holl adnoddau ar gael iddynt, er mwyn rhoi chwarae teg iddynt ddangos eu doniau heb fod o dan bwysau arholiad. Oherwydd hynny, disgwylir i'r cyfieithiad a gyflwynir fod yn lân ac adlewyrchu gwaith gorau'r ymgeiswyr. Yn anffodus, gwelwyd nifer o wallau ar draws y darnau gwaith cartref y tro hwn. Er nad oedd y mwyafrif ohonynt yn ddifrifol, mae'n rhwystredig gweld llithriadau o'r fath mewn gwaith y rhoddwyd pob cyfle i'r ymgeiswyr ei fireinio gymaint â phosibl. Atgoffir ymgeiswyr i ystyried y darn gwaith cartref o ddifrif gan ei fod yn gyfle iddynt ddisgleirio a dangos eu gwir allu i'r marcwyr. Yn yr un modd ag y gall darn gwaith cartref graenus bwyso o blaid ymgeisydd sydd wedi gwneud rhai gwallau yn y darnau arholiad, gall darn gwaith cartref esgeulus gyfrif yn erbyn ymgeisydd sydd wedi rhagori fel arall.

Gwelwyd enghreifftiau o gyfieithu llwyddiannus, effeithiol yng ngwaith pob un o'r ymgeiswyr, fel y canlynol:

*The northern lights are beautiful dancing waves of light that have captivated people for millennia.*

**Tonnau o olau pefriol yw goleuadau'r gogledd sydd wedi swyno pobl ers miloedd o flynyddoedd.**

*...rather violent event.*

**...ddigwyddiad go ffyrnig.**

*...the dramatic process transforms into a cinematic atmospheric phenomenon that dazzles and fascinates scientists and skywatchers alike.*

**...mae'r broses ddramatig yn trawsnewid yn ffenomenon atmosfferaid sinematig sy'n syfrdanu ac yn swyno gwyddonwyr a'r rheiny sy'n gwyllo'r wybren fel ei gilydd.**

*At any given moment, the sun is ejecting charged particles from its corona, or upper atmosphere, creating what's called the solar wind.*

**Ar unrhyw un adeg, mae'r haul yn bwrw gronynnau gwefredig o'i gorona, neu ei atmosffer uchaf, gan greu'r hyn a elwir yn wynt solar.**

*More than 400 children have died and with winter coming and millions left without shelter, many more will.*

**Mae dros 400 o blant wedi marw, a chyda dyfodiad y gaeaf a miliynau heb gysgod, dyma fydd hynt llawer mwy.**

*...monstrous super-flood...*

**...llifogydd enfawr a brawychus...**

*Human beings have destroyed our one and only planet; what is happening in Pakistan today is proof of that.*

***Rydyn ni fel pobl wedi dinistrio'r unig blaned sydd gennym ni; mae'r hyn sy'n digwydd ym Mhacistan ar hyn o bryd yn brawf o hynny.***

Roedd enghreifftiau o gyfieithu da fel y rhain i'w gweld yng ngwaith pob un o'r ymgeiswyr. Fodd bynnag, cafodd rhai drafferth cyfleu'r ystyr yn iawn:

*...cinematic atmospheric phenomenon that dazzles and fascinates scientists...*

***...ffnomen atmosfferig a sinematig sy'n disgleirio ac yn achosi'r un rhyfeddod i wyddonwyr...***

*...North American Inuit...*

***...un o lwythi brodorol Gogledd America...***

*One North American Inuit legend suggests...*

***Awgryma un ysgrif o gyfnod yr Iniwit, o Ogledd American...***

*...causing it to fluoresce...*

***...sy'n achosi fflworoleuol...***

*...and the aurora is born.*

***...a dyma fan geni'r awrora.***

*...bright colours of the northern lights...*

***...goleuadau disglair goleuadau'r gogledd.***

*...the world's fifth-most-populous country...*

***...y pumed wlad fwyaf poblog...***

*...Pakistan's largest social welfare organisation...*

***...sefydliad lles mwyaf Pacistan...***

*...cast backwards...*

***...cadw'n ôl...***

***...yn gorfod camu yn ôl...***

*...has warned that those who don't die from the floods...*

***...rhybuddio'r rhai hynny nad ydynt wedi eu lladd yn sgil y llifogydd...***

*...More than 400 children have died...*

***...bu farw 400 o blant...***

*The horrors faced by the country today...*

***Mae'r erchyllterau a wynebwyd gan y wlad heddiw...***

Gwelwyd nifer o wallau gramadegol yn y ddau ddarn hefyd, yn ogystal â chywair nad oedd yn taro deuddeg. Tybir mai diffyg gofal a phrawfddarllen sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o'r enghreifftiau hyn, ond disgwylir gwell ar y lefel hon:

***...yn ddigwyddiad eithaf treisgar...*** (a rather violent event – nid yw **treisgar** yn briodol i ddisgrifio digwyddiad naturiol; gwell fyddai **ffyrnig**)

*...deposits energy...*

***...gadael ynni...*** (byddai **gollwng/rhyddhau** ynni yn well)

*...fighting for its survival.*

***...ymladd am ei bywyd.***

**...ymladd dros oroesi...**

*...erratic monsoon rains battered...*

**...colbiodd monsynau anwadal...**

*...risk death by starvation.*

**...mewn perygl o farw drwy lwgu.**

*...many more...*

**...rhagor byth...**

*...the fate of Pakistan...*

**...yn ffawd Pakistan...** (byddai yn nhynged yn fwy naturiol)

*...a peek into the apocalyptic future...*

**...yn olwg i mewn i ddyfodol apocalyptaidd...**

**...ysbrydau...**

**...fysbrintiau...**

**...pegynnau...**

**...orlifo'r Afon Indus...**

**...credir fod...**

**...rhagwelir fod...**

**...achosi'r un rhyfeddod i wyddonwyr ac y mae i'r rhai sy'n...**

**Mae'r ddwy sgîl-effaith hon...**

**...wnaeth bathu'r enw...**

**May yna fygythiad...**

**...gan briodoli...ynghylch/ynglŷn â...**

**...os fydd...**

**...y pumed wlad...**

**...nawdeg...**

Roedd nifer o wendidau cystrawennol yn amharu ar y darnau hefyd.

*...those who don't die from the floods [risk death by starvation].*

**...y rheiny nad ydynt yn marw gyda'r llifogydd...**

**...y sawl na fyddant yn marw oherwydd y llifogydd...**

**...y rhai hynny nad sy'n marw o'r llifogydd â'r risg o farw o newyn.**

**...wrth i wasanaethau addysg ... gael eu hamharu'n ddirfawr.**

**...o ystyried diffyg ei ddiddordeb...**

**...ar ôl y dduwies Rufeinig ar gyfer gwawr Aurora...**

**...trawsffurfia'r broses ddramatig mewn i ffenomen...**

**...sef y wlad sy'n dod yn bumed o ran poblogaethau mwyaf y byd...**

Ac achosodd y frawddeg ganlynol anhawster i sawl ymgeisydd:

*Some of the dominant colours seen in aurorae are red, a hue produced by the nitrogen molecules, and green, which is produced by oxygen molecules.*

**Mae rhai o'r lliwiau trechol a welir yn awrorâu yn goch, sef arlliw a gynhyrchir gan y moleciwlau nitrogen, a gwyrdd a gynhyrchir gan foleciwlau ocsigen.**

***Coch fydd rhai o'r lliwiau amlycaf a welir mewn aurorâu yno, sef arlliw y bydd moleciwlau nitrogen yn ei greu yn ogystal â gwyrdd y bydd moleciwlau ocsigen yn ei greu.***

Gwell fyddai:

***Ymhlith prif liwiau awrorâu y mae coch, sef arlliw a gynhyrchir gan y moleciwlau nitrogen, a gwyrdd, a gynhyrchir gan foleciwlau ocsigen.***

Yn y ddwy enghraifft nesaf, gwelir sut mae brawddeg a luniwyd ar gam yn cymylu'r ystyr:

*More than 400 children have died and with winter coming and millions left without shelter, many more will.*

***Mae mwy na 400 o blant wedi marw, a miliynau heb loches, a'r gaeaf yn dod, bydd nifer fwy yn marw.***

*...clear warning of the consequences of universal and rapacious climate breakdown.*

***...yn rhybudd clir o ganlyniadau o ddinistr rheibus hinsawdd fyd-eang.***

Gosodwyd darn gwaith cartref, yn ôl yr arfer. Fel y crybwyllwyd ar y dechrau, mae'r darn hwn yn gyfle i'r ymgeiswyr lunio cyfieithiad wrth eu pwysau a manteisio ar yr holl adnoddau sydd ar gael, felly disgwylir iddynt fod wedi'i ddarllen yn ofalus a chyflwyno eu gwaith gorau.

Er nad oedd yr un o'r ymgeiswyr wedi cyflwyno gwaith di-fai, gwelwyd digon o enghreifftiau o gyfieithu celfydd, e.e.:

*...devastating and planet-reshaping inevitability...*

***...ganlyniad anochel o ddinistriol a fydd yn ail-ffurfio'r blaned...***

*At its maximum...*

***Pan fo ar ei helaethaf...***

*Its absence hastens coastal erosion, endangering dozens of communities.*

***Mae ei absenoldeb yn cyflymu erydiad arfordirol, gan beryglu dwsinau o gymunedau.***

*...and how will its loss reverberate across the planet?*

***...a sut y bydd ei gollu'n effeithio ar weddill y blaned?***

Fodd bynnag, ni lwyddwyd i gyfleu'r ystyr yn iawn yn yr enghreifftiau canlynol:

*...and the area that melts doesn't grow back.*

***...ac nid yw'r ardal sy'n toddi yn aildyfu.*** (Enghraifft o gyfieithu llythrennol; mae'r cyd-destun yn awgrymu y byddai ailrewi neu yn rhewi drachefn yn fwy priodol)

*...less sea ice covered the Arctic Ocean...*

***...roedd llai o iâ môr ar y Cefnfor Arctig...***

*...a devastating and planet-reshaping inevitability...*

***...achos anochel o ddifetha ac ailffurfio'r blaned...***

*...encouraged tundra fires to smoulder...*

***...peri i dwndrâu fudlosgi...***

*It also drove sea ice around the Arctic to melt even faster than usual.*

***Roedd hefyd wedi gyrru iâ môr o amgylch yr Arctig, gan beri iddo doddi hyd yn oed yn gyflymach na'r arfer.***

Roedd rhai enghreifftiau o gywair anaddas hefyd:

*...aggressive action...*  
**...camau ymosodol...**  
**...gweithredu ffyrnig...**

*...hits the point...*  
**...gyrraedd y man lle...** (gyrraedd sefyllfa sydd dan sylw)

Ac mae'n anodd esgusodi gwallau gramadegol fel y rhain:

**...wrth i wyneb y môr rhewi...**  
**...wedi lleihau gan 27,000 milltir sgwâr...**  
**Achosodd hefyd i iâ'r môr o amgylch yr Arctig i ddadmer...**  
**...fe alluogodd i danau twndra i fudlosgi...**  
**...tywydd mae ymchwilwyr yn dweud gwnaed 600 gwaith yn fwy tebygol...**  
**...tannau...**  
**...sut fydd...**  
**Pryd fydd...**

Gwelwyd enghreifftiau o gystrawen amhriodol hefyd:

*...it covered only...*  
**...roedd ond yn gorchuddio...**

*...and the effects touch virtually every aspect of life in the region.*  
**...ac mae'r effeithiau ar bron i bob agwedd ar fywyd yn y rhanbarth.**  
**...ac mae bron pob agwedd ar fywyd yn y rhanbarth wedi'i heffeithio.**

*...forced the collapse of Canada's last remaining ice shelf.*  
**...gorfodi dymchwel ysgafell iâ olaf Canada.**

*...drove sea ice around the Arctic to melt...*  
**...ac arweiniodd at iâ môr o amgylch yr Arctig yn dadmer...**

*Even with aggressive action, it's highly unlikely that this trend can be turned around before the region hits the point where summer ice is gone for good.*

**Mae'n annhebygol hyd yn oed os ceir gweithredu ffyrnig, y gellir gwrthdroi'r duedd hon cyn i'r rhanbarth gyrraedd y sefyllfa, lle bydd iâ môr yr haf yn diflannu am byth.**

*...reverberate across the planet...*  
**...cael eu teimlo ar draws y blaned...**

Roedd y darn gwreiddiol hefyd yn cynnwys un frawddeg hir a chymhleth yr oedd angen ei rhannu er mwyn llunio cyfieithiad ystyrllon. Syrthiodd rai ymgeiswyr i fagl trwy geisio glynu at batrwm y Saesneg, ond braf oedd gweld sawl un yn ei haidrefnu'n llwyddiannus, fel yn yr enghraifft hon:

**Eleni, fe wnaeth ton wres ddigynsail yn yr Arctig wthio tymheredd yr aer yn Siberia dros 100 gradd F, gan achosi i danau twndra fudlosgi yno am fisoedd ac i sgafell iâ olaf Canada ddymchwel. Fe wnaeth hefyd achosi i iâ môr o amgylch yr Arctig doddi hyd yn oed yn gyflymach na'r arfer. Dywed ymchwilwyr fod newid hinsawdd a achosir gan bobl wedi gwneud y don wres hon o leiaf 600 gwaith yn fwy tebygol.**

Er gwaethaf yr enghreifftiau o gyfieithu da a amlygwyd, tynnir sylw'n arbennig at y gwendidau yn y darn gwaith cartref oherwydd dyma'r cyfle i'r ymgeiswyr ddisgleirio ac nid

ydynt yn gwneud cyfiawnder â'u hunain drwy gyflwyno gwaith sy'n cynnwys mân wallau esgeulus.

Mae'n galonogol adrodd bod pob ymgeisydd wedi dangos gallu i gyfieithu'n fedrus, i raddau amrywiol. Yr her ar y lefel Cyflawn yw cynnal y safon uchel honno'n gyson ar draws tri darn. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd darllen gwaith yn drylwyr, oherwydd bod hynny'n gyfle i atal unrhyw fân wallau rhag syrthio trwy'r rhwyd, yn ogystal â chaboli'r cyfieithiad yn ei gyfanrwydd. Anogir yr holl ymgeiswyr (llwyddiannus ac aflwyddiannus) i barhau i fireinio eu sgiliau er mwyn datblygu ymhellach.

Wrth gloi'r adroddiad hwn, hoffwn ddiolch o galon i holl aelodau'r Bwrdd Arholi ac i staff y swyddfa am eu gwaith trylwyr a'u holl gymorth a'u cefnogaeth i'r Dirprwy Brif Arholwr.

**Y Dirprwy Arholwr i'r Gymraeg  
Tachwedd 2022**

## **Adran 2 – Cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg**

Ni chafwyd yr un ymgeisydd ar gyfer yr arholiad hwn.